

Sgwrs pob oed

# BREUDDWYDIO AM FYD GWELL

Mae 15 Ionawr yn nodi pen-blwydd Martin Luther King Jr – byddai'n 85 heddiw petai'n dal yn fyw. Wrth i ni ddathlu ei freuddwyd enwog, cawn gyfle i gyfarfod Vanuza yn Angola sydd bellach yn breuddwydio am ddyfodol gwell. Ymunwch gyda ni wrth i ni barhau i freuddwydio a gweithio am fyd gwell.

## Bydd angen:

Cyflwyniad PowerPoint *Breuddwydio am fyd gwell*, ar gael i'w lawr lwytho o [christianaid.org.uk/childrens-resources](http://christianaid.org.uk/childrens-resources)

## Cyflwyniad:

**Gofynnwch:** A gafodd unrhyw un freuddwyd neithiwr? A ydynt yn fodlon ei rhannu gyda gweddill y gynulleidfa? Ydych chi'n meddwl fod ystyr i'r freuddwyd?

**Gofynnwch:** Ac a oes gan unrhyw un freuddwyd ar gyfer y flwyddyn newydd hon? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ein breuddwydion yn y nos a'r breuddwydion sydd gennym ar gyfer ein bywydau?

Eglurwch fod y breuddwydion sydd gennym ar ein cyfer ein hunain ac ar gyfer y byd yn aml yn peri i ni fod eisiau gweithredu'n ogystal â meddwl. Maent yn ein sbarduno i wneud y newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld.

## Dangoswch sleid 2

Dyma Martin Luther King Jr. Gweinidog y Bedyddwyr o America a gafodd freuddwyd enwog iawn.

**Gofynnwch:** Oes unrhyw un yn gwybod beth oedd y freuddwyd honno?

Cafodd King freuddwyd y dylai bawb gael eu trin yn gyfartal. Roedd yn byw yn America mewn cyfnod pan roedd pobl yn cael eu trin yn wahanol iawn ar sail lliw eu croen. Roedd King, wedi ei ysbrydoli gan ei ffydd Gristnogol, yn benderfynol o ddangos i'r byd fod Duw'n caru ac yn gwerthfawrogi pawb yr un fath. Breuddwydiodd na fyddai plant yn dioddef rhagfarn fel y gwnaeth ef, a gweithiodd yn galed i sicrhau hynny. Aeth ati'n heddychlon i ymgyrchu a galw ar y llywodraeth i sicrhau hawliau cyfartal i bawb ac anogodd llawer o bobl eraill i ymuno yn yr ymgyrch hefyd.



## Dangoswch sleid 3

Mae Vanuza Sabalo yn 18 ac mae ganddi freuddwydion mawr ar gyfer ei dyfodol. Mae hi'n byw yn Angola a bu ei bywyd yn galed iawn cyn hyn. Bu raid iddi adael ei chartref pan oedd hi dim ond yn saith oed ac fe gafodd ei hun yn byw ar y stryd. Gan nad oedd ganddi unrhyw le diogel i aros, cafodd ei thrin yn wael gan nifer o bobl. Ond trwy waith Omunga, mudiad sy'n cael cefnogaeth Cymorth Cristnogol, mae gan Vanuza bellach ei chartref ei hun – mae'n syml iawn ond mae hi'n ddiogel yno a gall hi ganolbwyntio ar fyw a breuddwydio, yn hytrach nag ofni'r dyfodol.

Wrth i ni holi Vanuza beth oedd hi'n ei hoffi am waith Omunga a chael ei chartref ei hun, atebodd; 'Rwy'n hoffi popeth, rwy'n hoffi cael ymwelwyr. Rwy'n dilyn cwrs llythrennedd Rwy'n ei fwynhau'n fawr. Rwyf eisiau bod yn feddyg. Mewn gwirionedd mae gennyf ddau ddewis – rwyf un ai eisiau bod yn gyfarwyddwr Sefydliad Cenedlaethol y Plentyn neu fod yn feddyg. Am eu bod nhw wedi ein helpu ni ac rwyf finnau eisiau helpu pobl eraill.'

Mae Omunga yn ymgyrchu dros hawliau plant y stryd a phobl eraill sydd wedi colli eu cartrefi, er mwyn sicrhau fod gan bawb



fan diogel i fyw ynddo. Yn union fel y cafodd Martin Luther King ei ysbrydoli i ymgyrchu dros hawliau cyfartal gan freuddwyd Duw o fyd tecach, mae Omunga yn benderfynol o sicrhau fod y dyfodol yn well i bobl fel Vanuza sydd wedi cael eu hanwybyddu neu wedi dioddef rhagfarn oherwydd eu hamgylchiadau. Maen nhw'n dangos fod gan bob un ohonom ran ym mreuddwyd Duw o weld pobl yn cydweithio er mwyn dod â'r Deyrnas i'r byd.

Mae Effesiaid 3:20 yn dweud fod Duw ar waith ynom ni ac, oherwydd hynny, fod modd i ni gyflawni mwy nag y gallwn ddychmygu. Wrth i ni feddwl am ein breuddwydion ar gyfer y flwyddyn hon a'r dyfodol, gadewch i ni gofio breuddwyd Martin Luther King a'i benderfyniad i roi terfyn ar anghyfiawnder, a breuddwydion Vanuza i helpu eraill, yn union fel y mae hithau wedi derbyn help. Gadewch i ni weddio y byddwn, trwy weithio gyda Duw, yn cyflawni mwy nag y gallwn freuddwydio amdano wrth wneud y byd yn lle gwell.

## Gweithgareddau ychwanegol:

### Bydd angen:

- Dwy set o nodiadau stici mewn lliwiau gwahanol.
- Ychydig o ddanteithion
- Papur a phinnau lliw neu crayons
- Copïau o'r bybl breuddwydio (gweler trosodd)

### Anffafriaeth

Wrth i'r plant gyrraedd rhowch nodyn stici i bawb. Dylai hanner y grŵp gael nodyn melyn a'r hanner arall nodyn pinc. Dywedwch wrth y rhai sydd â'r melyn y gallant eistedd yn y tu blaen ar y cadeiriau a helpu eu hunain i'r danteithion sydd wedi eu gosod yno. Gofynnwch i'r rhai â'r nodyn pinc i eistedd ar y llawr yn y cefn a phwysleiswch nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael y danteithion. Gadewch i'r grŵp siarad ymysg ei gilydd am ychydig neu dywedwch rywbeth wrthynt am fywyd Martin Luther King. (e.e. Cafodd ei eni ar 15 Ionawr 1929, aeth yn weinidog gyda'r Bedyddwyr fel ei dad, cafodd ei ysbrydoli gan Iesu a'r efengylau ac roedd yn benderfynol o ymgyrchu mewn ffordd heddychlon.) Ar ôl ychydig o funudau, gofynnwch sut deimlad yw hi i'r bobl â'r nodyn pinc i gael eu trin mor wahanol ar sail peth mor ddiamcan. Eglurwch, er nad yw'n gyfreithlon i drin pobl yn wahanol ar sail lliw croen

yn America erbyn hyn, mae llawer o bethau yn y byd sy'n dal yn annheg; e.e. fod merched yn fwy tebyg o fod yn dlawd na dynion, neu fod yr 20% o bobl fwyaf cyfoethog yn y byd (ac mae hynny'n ein cynnwys ni) yn defnyddio tua 80% o adnoddau'r byd.

### Bybl breuddwydio

Gofynnwch i'r grŵp dynnu lluniau o'r byd y maent yn breuddwydio amdano ar gyfer y dyfodol. Gellwch ddefnyddio'r bybl breuddwydio ar y dudalen olaf ac yna tynnu llun o bob plentyn gyda'r freuddwyd yn dod o'u pennau! Rhowch y llun i'r plentyn wythnos nesaf. (Cofiwch fod angen caniatâd cyn tynnu lluniau!)

### Rhywbeth i'w gofio

Mae Omunga yn ymgyrchu dros blant y stryd yn Angola, pobl sy'n aml yn cael eu hanwybyddu neu eu hanghofio. Dysgwch Diarhebion 31:8-9 fel adnod i'w chofio:

Siarad ar ran y bobl hynny sydd heb lais, ac amddiffyn y rhai sydd wedi colli popeth.

Coda dy lais o'u plaid nhw, barna'n gyfiawn, a dadlau dros hawliau'r rhai mewn angen a'r tlawd.

### Addunedau Blwyddyn Newydd

Siaradwch am addunedau Blwyddyn Newydd a gofyn a oes unrhyw un wedi gwneud un.

**Gofynnwch:** Pam ydych yn meddwl ein bod yn gwneud addunedau?

Gyda'ch gilydd, ceisiwch feddwl am addunedau da fyddai'n helpu gwneud y byd yn lle gwell, fel rhannu yn fwy aml. Gallech eu hysgrifennu neu eu darlunio ar ddalen fawr o bapur a'u harddangos yn eich man cyfarfod i atgoffa pawb. Eglurwch fod rhaid i ni weithredu os ydym am wireddu ein breuddwydion – fyddan nhw ddim yn digwydd wrth synfyfyrio!

### Gweddiwch gyda'ch gilydd.

Gofynnwch i un o'r plant ddarllen y weddi ganlynol yn uchel:

Annwyl Dduw,

Diolch i ti fod Martin Luther King wedi rhannu ei freuddwyd am fyd gwell ac wedi ymgyrchu i'w wireddu.

Bydd gyda Vanuza wrth iddi hi weithio i wireddu ei breuddwydion o fod yn feddyg neu helpu eraill, a bydd gyda phob un ohonom ni eleni wrth i ni gefnogi ein gilydd i wireddu ein breuddwydion.

Amen.

